



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Canllaw Cynllunio i Ddeiliaid Tai

ar gyfer Gosod Antenâu,
gan gynnwys Dysglau
Lloeren

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi arweiniad ar yr agweddau hynny ar y system gynllunio yn ymwneud â gosod antenâu y mae deiliaid tai yn debygol o ddod ar eu traws. Er hynny, nid oes iddo statws cyfreithiol ac nid yw ychwaith yn honni ei fod yn dehongli'r gyfraith yn awdurdodol.

I gael copïau ychwanegol cysylltwch â:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3683

e-bost: assembly-publications@wales.gsi.gov.uk

Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r rheoliadau cynllunio ar gyfer antenâu yng Nghymru, ac yn cynnwys datganiad arferion da ar y mannau gorau i osod antenâu. Yn y ddogfen hon, mae "antenâu" yn cynnwys dysglau lloeren.

Mae'r ddogfen hon yn cymryd lle'r canllaw blaenorol i ddeiliaid tai, a gyhoeddwyd ym 1998, ac mae'n cymryd i ystyriaeth y newidiadau a ddaeth i rym ar ddechrau 2006 i ***Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995***.

Nod y canllaw hwn yw

- Esbonio beth y mae'r rheoliadau yn ei ddweud ynghylch nifer a maint yr antenâu a ganiateir a lle y dylid eu gosod.
- Rhoi arweiniad ar y mannau mwyaf priodol i osod antenâu er mwyn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd.
- Helpu manwerthwyr a gosodwyr i ddarparu cyngor a gwasanaeth priodol i chi ar ble y dylech osod antenâu.

Nodiadau Pwysig:

Cyn i chi brynu neu rentu antena, gofynnwch a oes angen cael caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd y landlord neu'r perchennog.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod antenâu'n cael eu gosod yn y man priodol. Os ydych yn ansicr ynghylch y man sydd gennych mewn golwg, cysylltwch ag adran gynllunio eich awdurdod cynllunio lleol (y Cyngor Sir ar gyfer yr ardal neu, os ydych yn byw o fewn Parc Cenedlaethol, Awdurdod y Parc dan sylw) neu gofynnwch am gyngor proffesiynol annibynnol.

Prynu a Gosod Antenâu

- Gofynnwch a oes angen cael caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig.
- Gofynnwch a oes angen cael caniatâd y landlord neu'r perchennog.
- Defnyddiwch gyflenwyr a gosodwyr dibynadwy sydd wedi'u hawdurdodi.
- Dewiswch antena:
 - nad yw'n fwy na'r hyn sydd ei angen i gael derbyniad da; ac
 - nad yw'n fwy na'r maint/cyfaint a nodir¹ ar gyfer yr ardal a'r adeilad.
- Rhowch yr antena mewn man:
 - lle nad yw'n amlwg ac, os yn bosibl, lle na all eich cymdogion na'r cyhoedd ei gweld;
 - lle nad oes modd ei gweld o du flaen yr adeilad (os yn bosibl); a
 - lle mae'n gweddu orau i'r cefndir a ddewiswch iddi.

Parchwch yr amgylchedd. Hwyrach nad y dewis rhataf fydd orau i chi neu'r amgylchedd bob tro.

Peidiwch ag anghofio mai chi sy'n gyfrifol am osod antenâu. Os nad ydych yn gosod yr antena yn y man mwyaf priodol, gall eich awdurdod cynllunio lleol fynnu eich bod yn ei symud i fan arall (bydd yn rhaid i chi dalu am hyn).

Mae technoleg lloeren ac antena yn parhau i ddatblygu: dylech fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o systemau sydd ar gael er mwyn gwneud dewis deallus.

¹ Ni ddylai'r antena fod â chapasiti ciwbig o fwy na 35 litr.

Y Rheoliadau Cynllunio

O dan *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995*, (fel y'i diwygiwyd), mae gennych hawl gyffredinol i osod antenâu sydd hyd at faint penodol heb orfod cael caniatâd cynllunio. Mae'r hawl gyffredinol hon yn dibynnu ar yr adeilad a'r ardal. Cewch fwy o wybodaeth oddi wrth eich awdurdod cynllunio lleol. Mae'r canllaw hwn yn sôn am yr hawliau ar gyfer:

1. Tai ac adeiladau sydd hyd at 15 metr o uchder;
2. Tai ac adeiladau sydd hyd at 15 metr o uchder ac mewn ardal ddynodedig;
3. Adeiladau sy'n 15 metr neu fwy o uchder; ac
4. Adeiladau sy'n 15 metr neu fwy o uchder ac mewn ardal ddynodedig.

Ardaloedd Dynodedig

Mae ardaloedd dynodedig yn

- ardaloedd cadwraeth;
- Parciau Cenedlaethol; ac
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Cânt eu diffinio yn Atodlen 1, Rhan 2, Erthygl 1(5) o *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995*, a chyfeirir atynt fel 'tir Erthygl 1(5)' o bryd i'w gilydd.

Adeiladau Rhestredig

Caiff rhai adeiladau statws 'rhestredig' am eu bod o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Gall eich awdurdod cynllunio lleol ddweud wrthyhych a oes gan yr adeilad statws 'rhestredig'. Os ydych yn byw mewn 'adeilad rhestredig' ac yn dymuno gosod antenna ar yr adeilad hwnnw, bydd yn rhaid i chi wneud cais am

'ganiatâd adeilad rhestredig' gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae'r caniatâd hwn yn wahanol i ganiatâd cynllunio. Rhaid i chi gael caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gosod unrhyw antenna sy'n effeithio ar gymeriad neu olwg adeilad rhestredig neu ei leoliad.

1. Tai ac adeiladau sydd hyd at 15 metr o uchder

Nid oes angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio i osod antenna oni bai bod eich cartref mewn ardal ddynodedig, ar yr amod:

- na fydd mwy na dwy antenna ar yr adeilad (boed ar flaen yr adeilad neu yn y cefn, ar y to neu'r simnai neu yn yr ardd);
- os ydych yn gosod un antenna, nad yw'n fwy na 100cm o ran dimensiwn llinellol² (heb gynnwys unrhyw elfen fwydo sy'n sefyll allan³, ymyl atgyfnerthol a bracedi cynnal);
- os ydych yn gosod dwy antenna, nad yw un yn fwy na 100cm o ran dimensiwn llinellol, ac nad yw'r llall yn fwy na 60cm (heb gynnwys unrhyw elfen fwydo sy'n sefyll allan, ymyl atgyfnerthol a bracedi cynnal);
- nad yw capasiti ciwbig⁴ pob antenna unigol yn fwy na 35 litr;
- os ydych yn gosod antenna ar gorn simnai, nad yw'n fwy na 60cm o ran dimensiwn llinellol ac nad yw'n codi'n uwch na'r simnai; ac

² Dimensiwn llinellol: Mae hyn yn golygu mesur lled yr antenna mewn llinell syth, o un ymyl i'r llall. Dylid mesur yr antenna ei hun yn unig, ac nid unrhyw atodion sydd eu hangen i'w gosod ar y wal neu'r to, neu i'w chysylltu â'ch offer.

³ Elfennau fwydo sy'n sefyll allan: Mewn antenna ddysgl, caiff signal ei dderbyn gan y ddysgl sydd wedyn yn 'adlewyrchu'r' signal i mewn i 'gorn bwydo' canolog. Fel arfer, mae'r corn bwydo ychydig fodfeddi oddi wrth y ddysgl ac yn cael ei ddal yn ei le gyda braich neu breichiau sy'n sefyll allan.

⁴ Capasiti ciwbig: Mae hyn yn golygu cyfaint (maint mewn 3 dimensiwn) gwrthrych yn ôl dull mesur hysbys.

- os ydych yn gosod antena ar y to, nad yw'n uwch na'r to heblaw bod yna simnai. Yn yr achos hwn, ni ddylai'r antena fod mwy na 60cm yn uwch na rhan uchaf y to, neu'n uwch na rhan uchaf y simnai, pa un bynnag sydd isaf.

Rheolau ychwanegol ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru – sef Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Cestyll a Muriau Tref Edward I yng Ngwynedd a Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte. Ers 30 Medi 2013, mae cyfyngiadau ychwanegol yn berthnasol yn yr ardaloedd hyn o ran gosod antena:

- ar dai, bydd yn rhaid eu gosod ar simneiau, waliau neu doeon nad ydynt yn wynebu priffordd ac na ellir eu gweld o briffordd
- ar adeiladau sy'n llai na 15 metr o daldra fel siediau a garejys.

2. Tai ac adeiladau sydd hyd at 15 metr o uchder ac mewn ardal ddynodedig

Os yw eich cartref mewn ardal ddynodedig, nid oes angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio i osod antena, ar yr amod:

- na fydd mwy na dwy antena ar yr adeilad;
- bod yr adeilad, os yw'n dŷ, yn 15 metr neu lai o uchder;
- os ydych yn gosod un antena, nad yw'n fwy na 100cm o ran dimensiwn llinellol (heb gynnwys unrhyw elfen fwydo sy'n sefyll allan, ymyl atgyfnerthol a bracedi cynnal);
- os ydych yn gosod dwy antena, nad yw un yn fwy na 100cm o ran dimensiwn llinellol, ac nad yw'r llall yn fwy na 60cm (heb gynnwys unrhyw elfen fwydo sy'n sefyll allan, ymyl atgyfnerthol a bracedi cynnal);
- nad yw capasiti ciwbig pob antena unigol yn fwy na 35 litr;

- os ydych yn gosod antena ar gorn simnai, nad yw'n fwy na 60cm o ran dimensiwn llinellol ac nad yw'n codi'n uwch na'r simnai;
- os ydych yn gosod antena ar y to, nad yw'n uwch na'r to heblaw bod yna simnai. Yn yr achos hwn, ni ddylai'r antena fod mwy na 60cm yn uwch na rhan uchaf y to, neu'n uwch na rhan uchaf y simnai, pa un bynnag sydd isaf;
- nad ydych yn gosod antena ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu ffordd ac y gellir ei gweld o'r ffordd (os ydych yn ansicr, gofynnwch i'r awdurdod cynllunio lleol am gyngor).

3. Adeiladau sy'n 15 metr neu fwy o uchder

Nid oes angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio i osod antena oni bai bod eich adeilad mewn ardal ddynodedig, ar yr amod:

- na fydd mwy na 4 antena ar yr adeilad;
- nad yw maint unrhyw antena yn fwy na 130cm o ran dimensiwn llinellol (heb gynnwys unrhyw elfen fwydo sy'n sefyll allan, ymyl atgyfnerthol a bracedi cynnal);
- nad yw capasiti ciwbig pob antena unigol yn fwy na 35 litr;
- os ydych yn gosod antena ar gorn simnai, nad yw'n fwy na 60cm o ran dimensiwn llinellol; ac
- os ydych yn gosod antena ar y to, nad yw'n fwy na 3 metr yn uwch na rhan uchaf y to.

4. Adeiladau sy'n 15 metr neu fwy o uchder ac mewn ardal ddynodedig

Os yw eich adeilad mewn ardal ddynodedig, nid oes angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio i osod antenna ar yr amod:

- na fydd mwy na 4 antenna ar yr adeilad;
- nad yw maint unrhyw antenna yn fwy na 130cm o ran dimensiwn llinellol (heb gynnwys unrhyw elfen fwydo sy'n sefyll allan, ymyl atgyfnerthol a bracedi cynnal);
- nad yw capasiti ciwbig pob antenna unigol yn fwy na 35 litr;
- os ydych yn gosod antenna ar gorn simnai, nad yw'n fwy na 60cm o ran dimensiwn llinellol;
- os ydych yn gosod antenna ar y to, nad yw'n fwy na 3 metr yn uwch na rhan uchaf y to; ac
- nad ydych yn gosod antenna ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu ffordd ac y gellir eu gweld o'r ffordd (os ydych yn ansicr, gofynnwch i'r awdurdod cynllunio lleol am gyngor).

Os ydych yn byw mewn fflat, mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i'r adeilad cyfan yn hytrach na phob fflat unigol.

Os yw nifer y dysglau neu antenâu sydd wedi'u gosod ar yr adeilad eisoes wedi cyrraedd yr uchafswm a ganiateir, rhaid i chi gael caniatâd cynllunio i osod mwy.

Yn yr achos hwn, hwyrach y byddwch am drafod â phreswylwyr eraill y posibilrwydd o rannu system.

Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud cais am ganiatâd cynllunio.
Os oes angen caniatâd, rhaid i chi ei gael cyn gosod antena.

Efallai y bydd y sawl sy'n cyflenwi neu'n gosod yr antena yn gallu eich cynghori a oes angen i chi gael caniatâd cynllunio i osod antena mewn man arbennig. Os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol, a fydd yn gallu darparu'r ffurflenni cais priodol.

Canllaw ar Osod Antenâu

Cyngor ar Leoliadau Da

Wrth osod dysgl neu antenna arall, rhaid i chi ei gosod mewn man lle mae'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar olwg allanol yr adeilad. Hefyd, dylech ei thynnu i lawr pan nad oes ei hangen mwyach.

Beth y mae angen i chi ei ystyried:

Os nad yw antenna wedi'i gosod yn y man mwyaf priodol, gall olygu ei bod yn fwy amlwg, ac (yn dibynnu ar ei lliw a'i golwg) nad yw'n cydweddu i'w chefnidir.

Cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am:

- ddewis y math o antenna; a
- gosod yr antenna ar yr adeilad neu yn yr ardd.

Wrth ddewis a gosod antenna, dylech ystyried ei heffaith ar eich cymdogion, y cyhoedd a'r amgylchedd. Hwyrach y bydd y sawl sy'n gwerthu neu'n gosod yr antenna yn gallu rhoi cyngor i chi ar hyn. Os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol.

Pethau i feddwl amdanynt

O ran antenau dysgl, mae eu lliw yn bwysig. Er enghraifft, mae dysgl wen yn cydweddu i gefndir gwyn, ond mae'n fwy amlwg yn erbyn cefndir tywyllach fel briciau neu gerrig.

Gall y deunyddiau a'r dyluniad hefyd effeithio ar addasrwydd antenna benodol. Er enghraifft, gall dysgl rhwyllog neu dryloyw fod yn llai amlwg na dysgl solet.

Efallai mai'r peth pwysicaf i'w ystyried wrth benderfynu gosod antenna yw ei lleoliad ar yr adeilad. Er ei bod yn bwysig sicrhau bod eich antenna yn cael derbyniad da, mae'n bwysig hefyd ystyried ei heffaith weledol.

- mae antenna a osodwyd ar y to yn llai amlwg nag un a osodwyd ar y wal
- mae antenna a osodwyd ar y wal yng nghefn yr adeilad fel arfer yn llai amlwg nag un a osodwyd ar flaen yr adeilad
- mae antenna a osodwyd ar lefel y ddaear yn yr ardd yn llai amlwg i'r cymdogion nag un a osodwyd ar bolion
- gallai antenna sydd wedi'i chuddio y tu ôl i barapet neu gorn simnai fod yn llai amlwg nag un a osodwyd ar y wal.

Canlyniadau Lleoliad Anaddas

Os yw eich adran gynllunio lleol yn credu bod eich antenna wedi'i gosod mewn man anaddas ac y gellid yn rhesymol ei symud i fan llai amlwg, mae'n bosibl y byddant yn gofyn i chi ei symud (chi fydd yn gorfod talu am hyn). Ni fyddai'n rhaid i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio.

Os ydych yn gwrthod cais o'r fath, gall eich adran gynllunio:

- fynnu eich bod yn gwneud cais cynllunio (a bydd yn rhaid i chi dalu ffi) ar sail y ffaith nad yw'r antenna wedi'i gosod mewn man lle mae'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar olwg allanol yr adeilad; neu
- anfon hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amodau atoch yn mynnu eich bod yn symud yr antenna.

Mae gennych hawl i apelio os yw'r adran gynllunio yn gwrthod eich cais am ganiatâd cynllunio neu'n anfon hysbysiad gorfodi atoch. Er enghraifft, gallwch apelio os ydych yn credu bod y lleoliad a ddewiswyd yn addas, neu bod y mesurau y mae

angen eu gweithredu yn ormodol ac, o bosibl, yn afresymol o ran cost. Ond nid oes hawl gennych i apelio yn erbyn hysbysiad torri amodau.

Mae methu cydymffurfio â hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amodau yn drosedd. Efallai y byddai'n rhaid i chi dalu dirwy, oni bai eich bod wedi apelio'n llwyddiannus yn erbyn hysbysiad gorfodi.

Os yw eich adran gynllunio yn gofyn i chi symud yr antenâu, dylent ddefnyddio'r canllawiau hyn i ddangos, ar ddiagram, pa fesurau rhesymol y gallwch eu cymryd. Ni all y cyngor ddefnyddio'r pŵer hwn i'ch rhwysto rhag gosod antena.

Dylech dynnu i lawr unrhyw antena nad ydych yn ei defnyddio mwyach.

Dewis Cyflenwyr a Gosodwyr

Dylai cyflenwyr a gosodwyr fod yn gyfarwydd â'r ffactorau cynllunio ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gosod antenâu.

Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio ceblau ac erialau sydd â'r logo 'tic digidol' arnynt (**www.digitallogo.co.uk**) ac yn prynu eich antena a'ch cyfarpar derbyn oddi wrth gwmnïau dibynadwy neu'r darlledwr.

Dylech hefyd ddefnyddio gosodwyr digidol cofrestredig (RDI) i osod unrhyw gyfarpar. Mae gan y rhain gymwysterau proffesiynol, maent wedi cael gwiriad cofnodion troseddol, maen ganddynt yswiriant rhwymedigaeth gyhoeddus ac mae ganddynt yr hawl i ddefnyddio logo'r 'tic digidol'.

Gofynnwch am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwahanol leoliadau posibl (yng nghefn eich tŷ er enghraifft) cyn gosod yr antena.

Canllawiau ar osod eich antenna



Canllaw cyffredinol yn unig yw'r llun uchod. Mae'n dangos y manau posibl y gellir gosod antenau.

Nid yw'n berthnasol i adeiladau mewn ardaloedd dynodedig.

Lleoliad		Canllawiau
O flaen y tŷ – yn yr ardd	✗	Anaddas – hawdd ei dwyn.
Ar flaen y tŷ – llawr gwaelod	✗	Anaddas – gellir ei gweld yn glir o'r stryd.
Ar flaen y tŷ – llawr 1af	✓	Addas – llai amlwg o'r stryd.
Ar ochr y tŷ – pen blaen	✗	Anaddas – gellir ei gweld o'r stryd.
Ar ochr y tŷ – tua'r cefn	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd
Ar y to – y tu ôl i'r parapet	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd.
Ar y to – ar ben y teils crib	✓	Addas – llai amlwg o'r stryd. Dim ond os oes gan yr eiddo gorn simnai y dylid gosod antenna yma.
Ar bolyn ar y bondo	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd.
Ar bolyn ar y simnai	✗	Anaddas – mae'n uwch na'r simnai.
Ar y simnai	✓	Addas – nid yw'n uwch na'r simnai.
Ar do fflat – pen blaen	✗	Anaddas – gellir ei gweld o'r stryd.
Ar do fflat – tua'r cefn	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd.
Ar ochr y garej	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd.
Ar estyniad yn y cefn – ar ochr y tŷ	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd.

Lleoliad		Canllawiau
Ar estyniad yn y cefn – ar y to	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd.
Yn yr ardd gefn – y tu ôl i goed	✗	Anaddas – gallai'r goeden amharu ar y signal.
Yn yr ardd gefn – ar lefel y ddaear	✓✓	Lleoliad a argymhellir – ni ellir ei gweld o'r stryd, ond dylid sicrhau bod modd cael signal.
Yn yr ardd gefn – ar bolyn	✗	Anaddas – mae'r cymdogion yn gallu ei gweld.

Dewisiadau heblaw Antenâu Unigol

Os ydych yn byw mewn:

- tŵr o fflatiau;
- bloc bach o fflatiau;
- tŷ teras; neu
- tŷ un talcen;

gall fod modd defnyddio systemau rhannu antenna heb fod angen i bob cartref osod antenna unigol. Ceir sawl dewis yn lle antenna unigol.

Systemau Rhannu Antena

Mae'n werth ystyried systemau rhannu antena:

- os nad yw'n debygol y rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer nifer o antenâu ar un adeilad;
- os byddai system rhannu antena yn fwy eco-gyfeillgar na chael antena ar gyfer pob cartref;
- os yw'r landlordiaid neu'r perchnogion wedi gwahardd antenâu unigol.

Os ydych yn byw mewn tŵr o fflatiau neu mewn grŵp mawr o fflatiau neu dai, dylech weld i ddechrau pa drefniadau sydd wedi'u gwneud, os o gwbl, ar gyfer system rannu.

Dylech gael cyngor proffesiynol bob amser er mwyn sicrhau bod y system a ddewiswch yn cynnig y dewis gorau o raglenni am bris rhesymol a bod ganddi'r gallu i dderbyn gwasanaethau yn y dyfodol.

Os ydych yn byw mewn tŷ un talcen neu dŷ teras, hwyrach y bydd yn bosibl datblygu system rannu ond gall fod yn ddrutach na gosod antenâu unigol. Hwyrach y bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch hefyd am yr amodau ar gyfer rhannu. Dylech sicrhau bod unrhyw system rannu yn derbyn yr holl raglenni y mae pawb yn dymuno eu gweld.

Mae'r un rheoliadau cynllunio yn berthnasol i antenâu a rennir ag antenâu unigol.

Mater i'r landlord neu berchennog yr adeilad yw penderfynu a ddylid caniatáu gosod system rannu ai peidio.

Rhwydweithiau Ceb1

Gall rhwydweithiau cebl fod yn ffordd arall o gael teledu lloeren neu fand eang yn eich cartref.

Hwyrach y byddwch am ofyn i'ch awdurdod cynllunio lleol a yw eich ardal chi yn derbyn gwasanaeth teledu cebl. Mae hyn yn arbennig o bwysig:

- os nad yw eich cartref neu'ch adeilad o fewn cylch gweld⁵ y trosglwyddydd perthnasol;
- os na chewch ganiatâd cynllunio i osod antena;
- os nad yw system rannu yn ymarferol; neu
- os nad ydych am osod antena ar eich adeilad.

Y newid i deledu digidol

Yng Nghymru, gan ddechrau yn 2009, bydd signal teledu digidol yn disodli'r signal teledu analog traddodiadol. Yr enw ar y broses hon yw 'y newid i ddigidol'.

Er mwyn parhau i wyllo eich teledu ar ôl newid i ddigidol bydd yn rhaid i chi addasu neu ddiweddar eich cyfarpar teledu i dderbyn y signal digidol. Gallwch dderbyn teledu digidol drwy'r erial (Freeview), neu drwy deledu lloeren, cebl neu fand eang. Mae teledu lloeren yn y DU eisoes yn defnyddio signal digidol, felly os oes gennych chi deledu lloeren ni fydd angen i chi addasu eich cyfarpar teledu er mwyn parhau i dderbyn rhaglenni.

⁵ Cylch gweld: Mae angen i nifer o antenâu ac antenâu lloeren allu derbyn signalau oddi wrth y trosglwyddydd heb fod coed neu adeiladau etc yn amharu arnynt. Ni fydd antenâu sydd heb fod o fewn cylch gweld y trosglwyddydd yn derbyn signalau'n gywir ac felly ni fyddant yn gweithio'n iawn.

I gael mwy o wybodaeth am y newid i ddigidol, cysylltwch â Digital UK. Dyma'r corff annibynnol, dielw sy'n arwain y broses o newid i ddigidol.

Ffôn: 0845 650 5050

Gwefan: www.digitaluk.co.uk

Os ydych chi'n landlord neu'n rheolwr eiddo ac yn ystyried gosod neu ddiweddarau system deledu a rennir ar gyfer eich preswylwyr, gallwch gael mwy o wybodaeth o

www.digitaluk.co.uk/propertymanagers

Cyfeiriadau Defnyddiol

Y Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM)

Riverside House

2a Soutwark Bridge Road

LLUNDAIN

SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3000

Cymorth Cynllunio Cymru

Y Llawr Cyntaf

174 Heol yr Eglwys Newydd

Y Mynydd Bychan

CAERDYDD

CF14 3NB

Ffôn: 02920 625000

e-bost: cccpaw@btconnect.com

